## COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 7FED O IONAWR 2026

Yn bresennol: Y Cadeirydd: Aron Roberts.

Y Cynghorwyr: Hefin Jones, Richard Davies, Sarah Hughes, Enid Roberts, Glain Williams, Aranli Thomas.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)
Elfed Roberts (Cynghorydd Sir),

Ymddiheuriadau: Iwan Jones, A. Huw Jones, Llywarch Davies, Idwal Williams.

### 2501 - COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 3ydd o Ragfyr fel y rhai cywir gan y Cadeirydd.

### 2502 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn Adroddodd y Cynghorydd Sir Elfed Roberts ei fod am gysylltu gyda Mr Adrian Roberts er mwyn gofyn am restr o'r cyrff i gyd sydd wedi bod ynghlwm a Garej Lôn er mwyn trefnu cyfarfod gyda'r holl asiantaethau.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Adroddwyd nad oedd diweddariad pellach a cytunwyd gofyn i Mr Tom Williams os oedd diweddariad. pellach

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddodd y Cynghorydd Sir Elfed Roberts ei fod wedi ysgrifennu at Ken Skates i godi'r pryderon hyn am yr A470/A4212, ac ei fod wedi derbyn ymateb yn cydnabod y mater. Hefyd adroddwyd bod trefniadau ar y gweill i Ms June Jones a Mr Steffan Jones ymweld â'r safle i'w asesu. Adroddwyd bod Mabon ap Gwynfor wedi ymweld â'r safle ym mis Rhagfyr i archwilio diogelwch yr A470 rhwng Trawsfynydd a Stesion, ble mae plant ysgol a cherddwyr yn gorfod croesi ffordd brysur. Mynegodd Mabon ap Gwynfor bryderon difrifol am ddiogelwch y ffordd, gan nodi y gallai gosod croesfan neu ynys wella'r diogelwch, ond bod angen astudiaeth bellach i asesu'r opsiynau.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod mesuriadau'r tir i ymestyn y fynwent fel a ganlyn: 120 medr o frig y cae i'r gwaelod, a 10 medr i mewn i'r cae. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn cysylltu gyda Mr Dafydd Roberts i gael gwybodaeth ynglyn a mesuriadau beddi ayb. Bydd hyn o gymorth i'r Cyngor wneud penderfyniad o maint y tir sydd angen.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb i'r e-bost gan y Parc Cenedlaethol yn cadarnhau y byddent yn talu am yr archwiliad ystlumod. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn gyrru ymateb i ofyn os yw'r Parc Cenedlaethol am dalu am yr archwiliad yn syth neu a yw'r Parc yn disgwyl i'r Cyngor dalu'n gyntaf ac yna cael ad-daliad. Cytunwyd i wahodd Mrs Naomi Jones o'r Parc Cenedlaethol i ddod i gyfarfod mis Chwefror i drafod y Gofeb.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Derbyniwyd e-bost ar ran Mr Tom Williams NRS ynghylch pont droed Trawsfynydd. Cadarnhawyd bod gwaith cynllunio i dynnu'r bont wedi dechrau oherwydd pryderon diogelwch strwythurol. Bydd nifer o opsiynau ar gyfer dymchwel yn cael eu hystyried, gan arwain at gais cynllunio ffurfiol. Er nad oes penderfyniad wedi'i wneud y tu hwnt i'w thynnu, bydd safbwyntiau'r gymuned a chofnodion hanesyddol yn cael eu

hystyried, yn amodol ar gyllid a gan flaenoriaethau diogelwch. Cytunodd y Cyngor Cymuned i ddiolch am e-bost Mr Tom Williams ac i roi'r wybodaeth yma ar hysbysfwrdd y pentref ac ar dudalen Facebook y Cyngor . Cytunwyd i yrru e-bost i'r NDA yn gwneud cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cais yn gofyn am wybodaeth ynghylch elw a gynhyrchwyd gan Orsaf Bŵer Maentwrog mewn cysylltiad â Llyn Trawsfynydd, ynghyd â manylion gwariant ar archwilio a cynnal a chadw pont droed Trawsfynydd dros y blynyddoedd diweddar, gan gynnwys y cyfnod cyn ei chau ar sail iechyd a diogelwch. Cytunwyd i ofyn am ddadansoddiad blynyddol o'r wybodaeth a chynnwys Liz Saville Roberts yn yr ohebiaeth. Cadarnhawyd y byddai y ddeiseb yn cael i hanfon i Mr David Pettie.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc ei bod wedi e-bostio Darwin Gray yn mynegi ein siom am ddiffyg cefnogaeth a nodi bod y telerau gwreiddiol yn cael eu torri gyda 7 cerbyd wedi eu parcio yno, ond ni chafwyd ymateb.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol bod y Cyngor yn parhau i aros i'r archwiliad allanol gael ei gwblhau, ac oherwydd hyn nid yw'n bosib i lansio'r wefan newydd.

2416(3) - Ffordd y Pentref – Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol gyda Mr Mark Ghan, Mr Iwan ab Trefor, Mrs Rhian Williams a'r ddau Gynghorydd Aron Roberts a Hefin Jones. Adroddwyd bod cynlluniau wedi'u gyrru dros e-bost y cyngor yn dilyn y cyfarfod rhithiol yma gyda syniadau o ble i leoli'r llinellau melyn yn y pentref. Cytunwyd i ymateb i'r e-bost yn nodi bod angen i'r llinellau melyn fod ar ddwy ochr i'r ffordd ac i ofyn am gynlluniau heb eu marcio er mwyn i'r Cyngor ddangos lle y dylid gosod llinellau melyn. Adroddodd y Cynghorwyr Richard Davies ac Aron Roberts bod parcio o flaen yr ysgol yn broblem. Nid y rhieni'n nôl a danfon eu plant ond trigolion yn parcio'n hwyr yn y nos. Mae hyn wedyn yn atal y bysus rhag pasio. Cytunwyd i feddwl am gynlluniau i roi mwy o leoedd parcio yn yr ardal yna a cytunwyd ymhellach y byddai'r Cynghorydd Sir Elfed Roberts a'r Cynghorydd Richard Davies yn ymweld a perchnogion Ysgubor Madog am sgwrs anffurfiol i drafod y posibilrwydd o greu maes parcio ar y tir gyferbyn ag Ysgol Bro Hedd Wyn.

2429(4) - Ffordd gefn 7-12 Bro Prysor – Derbyniwyd e-bost gan Adrian Williams yn cadarnhau derbyn yr e-byst, yn dilyn asesiad diweddar. Adroddwyd nad oedd unrhyw ddiffygion brys ar y ffordd dan sylw. Nodwyd nad yw'r ffordd wedi'i chynnwys yn y rhaglen ail-wynebu hyd at 2028. Byddai angen gwaith sylweddol, gan gynnwys codi'r wyneb presennol "Grass Crete", gosod system ddraenio newydd ac ailadeiladu'r ffordd o'r sylfaen, gyda chost sylweddol tebyg i waith diweddar a wnaed yn Nhrawsfynydd. Cadarnhawyd y bydd y ffordd yn parhau i gael ei monitro fel rhan o'r rhaglen archwiliadau diogelwch. Cytunwyd i ddiolch i Mr Adrian williams am ymateb a gofyn yn garedig iddo gadw hyn mewn cof pan ddaw cyllid ar gael.

2435(2) - Byrddau Dehongli ac Arwydd y Llyn – Adroddodd y Cynghorydd Sir Elfed Roberts bod Mr Gwyn Evans yn rhoi coesau newydd ar y byrddau dehongli. Adroddwyd hefyd bod y llwybr beics yn beryglus ar y funud. Penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Sir Elfed Roberts yn cysylltu gyda'r cwmni Hock Cheif a Costains i ddechrau, gan nad oes cyllid gan y Cyngor i'w thrwsio.

2440(5) - Arian Llys Ednowain – Cytunwyd y byddai'r cyfarfod i drafod gwariant arian Llys Ednowain yn cael ei gynnal ar y 19eg o Ionawr. Cytunwyd i ofyn i Mrs Helen Wyn os oedd y neuadd ar gael ar y 19eg o Ionawr.

2464(1) - Gor-yrru yn Stesion – Cytunwyd y byddai'r cynghorydd Sir Elfed Roberts oedd mewn cysylltiad â Gan Bwyll i drafod posibiliadau yn y Stesion.

2464(5) - Sedd Wâg – Adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan Mrs Elan Jones yn mynegi diddordeb yn ymuno a'r Cyngor. Cytunwyd ei chyfethol a rhoi gwahoddiad iddi i gyfarfod mis Chwefror.

2470(1) – Parc Bryn Glas – Derbyniwyd gohebiaeth gan Mr Mark Gahan yn darparu awgrymiadau cyllido ar gyfer datblygu maes parcio ym mis Rhagfyr, cytunwyd i feddwl am opsiynau posibl am leoedd parcio yn y pentref yn ystod mis Ionawr er mwyn gyrru'r syniadau i Mr Mark Gahan.

2470(2) – Trydan i'r diffibiwlwr yn Stesion - Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Mr Tomos Williams i ofyn iddo symud y diffibiwlwr.

2489(1) – Clwb Ieuenctid - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones fod y Clwb Ieuenctid bellach wedi dechrau yn y pentref. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn talu hyd nes ddiwedd Mis Mawrth 2026 am y sesiynau ac yna talu o fis Medi hyd nes Mawrth 2027.

2496(2) - Cwmni Egino - Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts bryderon ynghylch y penderfyniad i ddiddymu Cwmni Egino. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd parhaus corff o'r fath i gefnogi datblygiadau yn y sector niwclear a meysydd eraill, yn ogystal â'r cysylltiadau hanesyddol sy'n bodoli rhwng Trawsfynydd a'r Wylfa. Nododd y Cynghorydd Elfed Roberts ei fwriad i anfon e-bost at yr AS Eluned Morgan y penderfyniad, a'r rhesymeg y tu ôl iddo, a pha gefnogaeth fydd ar gael i ardal Trawsfynydd yn y dyfodol. Penderfynodd y Cyngor Cymuned i anfon gohebiaeth ffurfiol ar ran y Cyngor i fynegi eu siom ynghylch y penderfyniad i ddiddymu Cwmni Egino, a phwysleisio'r angen am gefnogaeth barhaus i gymuned ddifreintiedig gyda chyfleoedd gwaith cynaliadwy i'r dyfodol.

2496(3) – Toiledau Cyhoeddus - Derbyniwyd e-bost gan Mr Llifon Foulkes ym mis Rhagfyr yn nodi mai'r swm fydd yn daladwy i gadw'r toiledau cyhoeddus yn agored drwy'r flwyddyn ariannol nesaf fydd £4,070. Cytunwyd i'r taliad. Y Swyddog Ariannol i gysylltu gyda Mr Foulkes i gadarnhau.

2496(4) – Ride Cymru - Derbyniwyd e-bost gan Ride Cymru yn gofyn i gael defnyddio'r maes parcio ger y feddygfa ar gyfer digwyddiad Ride Cymru ar yr 11eg o Fedi 2026.Adroddwyd bod y clerc wedi cadarnhau'r dyddiad gyda Ride Cymru.

2498(1) – Cae Chwarae Bro Prysor - Adroddodd y Swyddog Ariannol fod Adra wedi ymateb i gadarnhau y bydd angen iddynt fynd ati i brisio cae chwarae Bro Prysor cyn y gellir gwneud unrhyw gamau pellach. Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod hi'n parhau i aros am bris.

2498(2) – Giat Salem - Hysbyswyd y Cyngor yn ystod cyfarfod mis Tachwedd fod giât mynwent Salem wedi dirywio. Adroddodd y Cynghorydd Arianli Thomas ei fod wedi archwilio'r giât ac mae'n amlwg bod angen gwaith atgyweirio arni. Penderfynwyd bod y cynghorydd Aranli Thomas am gysylltu â Mr Morgan Jones i ofyn iddo atgyweirio'r giât ac i ofyn hefyd am bris ar gyfer atgyweirio ffens y weiran bigog. Cadarnhaodd y Cynghorydd Elfed ei fod wedi derbyn caniatâd gan deuluoedd y diweddar Isgoed Williams a'r diweddar Keith O'Brien i osod plac er cof amdanynt gyda'u henwau yng Ngardd Salem.

2498(3) – Coeden Nadolig - Adroddwyd bod angen trefnu i dynnu'r goeden Nadolig a'r goleuadau i lawr a'u cadw'n daclus. Cytunwyd i yrru llythyr o ddiolch i Mr Dewi Williams am ei rodd o'r goeden Nadolig i'r pentref.

2498(7) – Camperfans yn y Maes Parcio - Adroddodd y Cadeirydd bod camperfans yn parcio yn y maes parcio dros nos ac yn cymryd y lleoedd parcio i gyd. Adroddwyd bod e-bost wedi ei yrru i Mr Adrian Williams eisioes am hyn. Cytunwyd i ail yrru'r e-bost.

## 2503 - GOHEBIAETH

(1) Cais Cynllunio - NP5/78/L225A Gosod 14 panel solar ar rhan o'r to yn gwynebu'r tu blaen Beehive, Stryd Fronwnion, Trawsfynydd, LL41 4SE.

(2) Derbyniwyd e-bost yn hysbysu'r Cyngor mai terfyn gwariant Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer blwyddyn ariannol 2026–27 yw £11.60 fesul etholwr. Nodwyd bod y swm wedi cynyddu o £11.10 oherwydd cynnydd o 2.86% yn y Mynegai Prisiau Manwerthu.

(3) Derbyniwyd e-bost gan glerc Cyngor Llanrug yn gofyn am wybodaeth ynghylch trefniadau addurniadau Nadolig y Cyngor. Ymatebodd bod y Cyngor yn derbyn coeden Nadolig bob blwyddyn yn rhodd gan gyn-Gynghorydd, ac

a bod goleuadau eisoes ym meddiant y Cyngor ers nifer o flynyddoedd ac yn cael eu prynu neu'u disodli yn ôl yr angen.

## 2504 - ADRODDIAD ARIANNOL

(1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol a cytunwyd ar y taliadau oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

(2) Adroddwyd er bod y Swyddfa Archwilio wedi cadarnhau eu bod wedi cychwyn yr archwiliad allanol ar y 5ed o Dachwedd a nad oedd adroddiad wedi dod yn ôl eto.

## 2505 - PRAESEPT 2026/27

(1) Cytunwyd hawlio praesept o £22,000 am y flwyddyn ariannol 2026/2027.

## 2505 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn rhoi'r copi diwygiedig o Reolau'r Fynwent yn yr hysbysfyrddau yn y 2 leoliad.

(2) Adroddodd y cynghorydd Aranli Thomas bod cyflwr adeilad y YMCA yn dirywio. Cytunwyd i yrru llythyr i Fudiad Ysgolion Meithrin am gyflwr yr adeilad.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 2506 - ADRODDIADAU O'R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

(1) Cyflwynwyd diweddariadau cynhwysfawr i Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd gan yr NRS, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a chyrff rheoleiddio. Cadarnhawyd bod tua 190 o staff a dros 100 o gontractwyr ar y safle, ynghyd â rhaglen brentisiaethau barhaus. Amlinellodd Mr Tom Williams gynnydd sylweddol o ran datgomisiynu, gan gynnwys gostwng uchder adeiladau'r adweithyddion, gwagio'r pyllau a gwaith paratoi ar gyfer datgymalu pellach, gyda phwyslais Barhaus ar ddiogelwch. Yn ystod y sesiwn holi, cafodd Mr Williams ei holi ynghylch pont droed Trawsfynydd a chadarnhaodd fod trefniadau ar y gweill i'w dymchwel oherwydd pryderon diogelwch, gan sicrhau y bydd deialog agored a pharhaus gyda'r gymuned leol ynghylch opsiynau'r dyfodol. Nodwyd hefyd y gefnogaeth economaidd gymdeithasol barhaus i brosiectau a busnesau lleol, gweithgareddau STEM a ymgysylltu â'r gymuned. Tynnodd yr NDA sylw at ei gyllideb genedlaethol, yr ymgynghoriad ar y 5ed Strategaeth, a chynlluniau i ddathlu 20 mlynedd ers ei sefydlu. O ran unrhyw fater arall, rhoddwyd diweddariad ar waith Cwmni Egino, gan nodi er nad yw safle Trawsfynydd wedi'i ddewis ar gyfer datblygiad niwclear newydd, bod gwaith ar y cyd ar ddatblygiadau amgen a chyfleoedd economaidd yn parhau ar y safle.

CYFARFOD NESAF AR Y 4YDD O CHWEFROR.